



Tanau gwyllt

Defnyddir y term tanau gwyllt i ddisgrifio tanau sydd heb eu cynllunio mewn ardaloedd cefn gwlad gan gynnwys tanau coedwig, tanau glaswelltir, tanau llwyn, tanau prysgwydd, ac unrhyw dân llystyfiant arall. Mae tanau gwyllt yn digwydd ar draws y byd ac eithrio yn Antarctica (mae 98% o'r cyfandir hwnnw wedi'i orchuddio'n barhaol ag eira a rhew ac mae'r 2% arall yn graig agored noeth i raddau helaeth, felly ychydig o danwydd sydd yno ynghyd â thymheredd rhewllyd).

Sut mae tanau gwyllt yn cychwyn?

Mae tanau gwyllt wedi digwydd trwy gydol hanes a gallan nhw ddigwydd yn naturiol trwy:

- mell t taro
- gweithgaredd folcanig
- gwreichion o greigiau sy'n gwrthdaro
- hylosgiad digymell
- tymereddau uchel a llystyfiant sych

Pobl sy'n achosi'r rhan fwyaf o danau gwyllt, naill ai'n ddamweiniol, trwy fod yn ddiotal, neu'n fwriadol gyda'r bwriad o achosi niwed. Dysgwch fwy yn ein [Nodyn Gwybodaeth - Ymchwilio i achosion tanau gwyllt](#).

Effeithiau tanau gwyllt

Mae tanau gwyllt yn hynod beryglus i fywyd gwyllt, planhigion, eiddo a bywyd dynol.

Yn ogystal â'r perygl o losgi, mae mwg o danau gwyllt yn cynnwys llygryddion all achosi problemau iechyd sylweddol i anifeiliaid ac i bobl. Ar draws y byd, credir bod mwg tanau gwyllt yn lladd tua 339,000 o bobl y flwyddyn.

Mae tanau gwyllt hefyd yn cynyddu'r potensial ar gyfer llifogydd a thirlithriadau sydd hefyd yn berygl i fywyd.

Mae gan lawer o anifeiliaid rywfaint o allu i ddianc rhag y gwres. Gall adar hedfan i ffwrdd, gall mamaliaid redeg, ac efallai y bydd creaduriaid bach yn gallu tyllu i'r ddaear neu guddio dan greigiau. Bydd anifeiliaid eraill yn ceisio lloches mewn nentydd a llynnoedd. Er hynny, gall rhai greddfau sydd gan anifeiliaid weithio yn eu herbyn mewn sefyllfa o'r fath, e.e. gwiwer sydd â greddf i ddringo coeden er mwyn dianc ond gall hyn arwain at gael ei dal yn gaeth.

Mae llawer o greaduriaid yn colli eu cartrefi, yn cael eu brifo, neu'n cael eu lladd.

Gall tanau gwyllt gael effeithiau cadarnhaol hefyd ar yr amgylchedd naturiol a gallan nhw fod o fudd i rai anifeiliaid. Mae'n hysbys bod ysglyfaethwyr yn hela creaduriaid eraill sy'n ffoi rhag tân.

Mae rhai rhywogaethau planhigion wedi addasu i oroesi tanau gwyllt, ac mae rhai yn dibynnu ar effeithiau tân i atgynhyrchu a thyfu. Gelwir y rhain yn blanhigion pyroffytig. Mae rhai coed, gan gynnwys coed llarwydd a'r secwoia enfawr wedi goroesi oherwydd haen o inswleiddiad thermol sy'n cael ei darparu gan eu rhisgl, dail marw, neu feinweoedd llaith. Mae gan goed Ewcalyptws flagur arbenigol sydd wedi'u diogelu o dan eu rhisgl. Pan gaiff y coed eu llosgi, mae'r blagur hyn yn dod i'r amlwg gan gynhyrchu dail a changhennau newydd. Mae angen tân ar rai planhigion er mwyn i'w hadau egino, e.e. y Pinwydd Bolion (Lodgepole Pine).

Fodd bynnag, gall tanau gwyllt afreolus a mawr arwain at ddifrod difrifol i'r amgylchedd naturiol.

Mathau o danau gwyllt

Mae tanau'n aml yn cael eu dosbarthu yn ôl y tanwyddau maen nhw'n eu llosgi ac yn eu plith mae:

- **Tanau daear** – llosgi'n araf mae'r rhain fel arfer ac maen nhw'n cael eu bwydo gan ddeunydd organig yn y pridd.
- **Tanau arwyneb** – gelwir y tanau hyn hefyd yn danau cropian ac maen nhw'n lledaenu'n gyflym iawn. Maen nhw'n llosgi llystyfiant isel gan gynnwys dail, glaswellt, canghennau a rhedyn.
- **Tanau canopi** – gelwir y tanau hyn hefyd yn danau awyr. Mae'r math hwn o dân yn symud trwy ben uchaf neu goronau coed neu lwyni, gan greu fflamau mawr.



- **Tân sy'n smotio** – gelwir y tanau hyn hefyd yn fflaglau tân ac maen nhw'n digwydd pan fydd gwyntoedd yn chwythu peli tân o danau canopi i ardaloedd sydd heb gael eu heffeithio o'r blaen. Pan fydd fflaglau tân yn cael eu chwythu i ardaloedd newydd, bydd y tân yn lledaenu'n gyflymach.
- **Tân wedi'i ffrwyno** – bydd llinell yn cael ei chloddio'r holl ffordd o amgylch perimedr y tân i atal y tân rhag lledu, ond gallai'r tân ei hun barhau i losgi oddi mewn i'r ffin am wythnosau neu fisoedd.
- **Llosgi drosodd** – pan fydd tân yn symud yn rhy gyflym i griw diffodd tân gilio neu fynd i leoliad diogel. Pan fydd hyn yn digwydd bydd diffoddwyr tân yn llochesu mewn parth diogelwch neu mewn lloches dân.
- **Tân wrth gefn** – Pan fydd tân yn ymledu i'r gwynt neu i lawr llethr.
- **Goddaith** – defnyddir y term hwn i ddisgrifio tan gwyllt enfawr sy'n dinistrio ardal helaeth o lystyfiant.

Ffactorau sy'n effeithio ar danau gwyllt

Mae yna amrywiaeth o ffactorau all gyfrannu at ledaeniad tanau gwyllt. Mae'r rhain yn cynnwys y tywydd, tir, tanwydd, fflamadwyedd, a ffynhonnell y tanio.

Mae tanau gwyllt yn fwy tebygol o ledaenu'n gyflym pan fydd yna wyntoedd cryfion, pan fydd ardal y llystyfiant yn sych, y tymheredd yn uchel, ac os yw hinsawdd yr ardal yn boeth. Gall tân dyfu'n fwy dwys yn ystod y dydd gan ei bod yn aml yn gynhesach ac yn sychach bryd hynny.

Mae nodweddion y tir yn cyfrannu at ba mor gyflym ac eang y gallai tanau gwyllt ledaenu. Er enghraifft, gall llethrau serth ochr mynydd gyflymu lledaeniad tân. Fel arfer bydd tân yn teithio i fyny allt yn gyflymach nag i lawr allt. Po fwyaf serth yw'r llethr, cyflymaf yn y byd y bydd y tân yn symud. Mae tân yn teithio i gyfeiriad y gwynt, sydd fel arfer yn chwythu i fyny'r allt. Mae'r tân hefyd yn gallu rhag-gynhesu'r tanwydd ymhellach i fyny'r bryn gan fod y gwres yn codi i'r cyfeiriad hwnnw.

Bydd faint o danwydd sy'n bresennol (llystyfiant) yn ardal y tân gwyllt yn cyfrannu at hirhoedledd a dwyster y tân gwyllt, oherwydd hebdo byddai'r tân gwyllt yn marw'n raddol.

Dewch i wybod mwy yn ein [Nodyn Gwybodaeth - Ymchwilio i achosion tanau gwyllt](#).

Meistroli a rheoli tanau gwyllt

Mae tanau gwyllt wedi'i gydnabod yn swyddogol fel un o brif beryglon y DU, ac mae wedi'i gynnwys yn y Gofrestr Risg Genedlaethol o Argyfyngau Sifil. Tua £55 miliwn yw'r gost flynyddol am ymladd tanau gwyllt yn y DU.

Gall tanau gwyllt ddinistrio ardal neu gynefin cyfan, gan effeithio ar rywogaethau planhigion ac organebau eraill sy'n byw yn yr ardal honno ac yn eu plith fodau dynol. Felly, mae'n bwysig atal neu reoli tanau gwyllt.

Mae pobl wedi rhoi cynnig ar lawer o ffyrdd i ganfod ac atal tanau gwyllt. Bydd rheolwyr tir a diffoddwyr tân yn defnyddio dulliau amrywiol i atal, rheoli a mygu tanau gwyllt.

Ymhlith y dulliau hyn mae:

- **Rheoli llystyfiant** – bydd tîrfeddianwyr yn cyfyngu ar groniad llystyfiant mewn ardaloedd sy'n agored i danau gwyllt trwy ddulliau cemegol neu â llaw, gan gyfyngu ar groniad tanwydd.
- **Llosgi dan reolaeth** – techneg rheoli tir lle mae tîrfeddianwyr yn cynnau tanau bach er mwyn lleihau faint o ddeunydd fflamadwy sydd ar gael ar gyfer tanau gwyllt posibl, e.e. llosgi rhedyn dan reolaeth ar lethr bryn. Fel arfer bydd rhedyn yn cael ei losgi er mwyn rheoli ei orchudd a'i ddwysedd, gan glirio ardal er mwyn caniatáu i laswellt a rhywogaethau eraill o blanhigion dyfu. Gall lleihau swm y tanwydd ar gyfer tanau gwyllt fod yn fantais eilaidd i reolwr tir fel ffermwr, allai fod eisiau mwy o laswellt ar gyfer da byw yn bennaf. Dim ond yn ystod y tymor llosgi y gall llosgiadau rheoledig ddigwydd. Mae'r 'tymor llosgi' yn digwydd rhwng 1 Hydref a 15 Ebrill mewn ardaloedd ucheldirol (ardaloedd difreintiedig iawn), a rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth mewn ardaloedd eraill.
- **Ymosodiad uniongyrchol** – unrhyw driniaeth, o losgi tanwydd, e.e. trwy wlychu, mygu, neu ddiffodd y tân yn gemegol neu drwy fynd ati i wahanu tanwydd sy'n llosgi oddi wrth danwydd sydd heb ei losgi.



- **Atal tân** - i atal tân neu leihau ei ddwysedd; y ffordd orau o atal tanau gwyllt yw cael gwared ar y tanwydd sy'n cadw'r tân i losgi. Mae toriad tân yn ffos gaiff ei chloddio'n syth o flaen llwybr y tân, gan ddileu gallu'r tân i gael at danwydd.
- **Gollwng o'r awyr** - math o ymosodiad uniongyrchol gan ddefnyddio awyrennau, hofrenyddion neu awyrennau eraill i ollwng dŵr neu hylifau diffodd tân o'r awyr.

Canlyniadau cyfreithiol cychwyn tanau gwyllt yn fwriadol

Mae cychwyn tanau gwyllt yn fwriadol yn weithred anghyfreithlon ac anghyfrifol. Mae hyn yn drosedd yn erbyn y gyfraith a gall arwain at garchar am oes. Gelwir y weithred droseddol hon yn losgi bwriadol. Mae Adran 4 Deddf Difrod Troseddol 1971 yn nodi uchafswm cosb o garchar am oes am losgi bwriadol dwys.

Mae mynd i'r afael â thanau gwyllt yn golygu defnyddio adnoddau hanfodol; mae'n gostus iawn ac yn peryglu iechyd a bywydau pobl.

Beth allwch chi ei wneud?

Gallwch helpu i atal tanau gwyllt drwy:

1. Bod yn ofalus gyda tân bob amser - gall un goeden wneud miliwn o goesau matsis, ond dim ond un fatsien sydd ei hangen i losgi miliwn o goed.
2. Peidio byth â chwarae gyda matsis neu danwyr.
3. Dilyn y **Côd Cefn Gwlad** bob amser a bod yn ofalus wrth gynnau tân gwersyll neu gael barbeciw, e.e. sicrhau bod gyda chi ddŵr wrth law i'w ddiffodd pan fyddwch wedi gorffen neu rhag ofn i bethau fynd allan o reolaeth.
4. Sicrhau fod eich tân gwersyll neu farbeciw wedi diffodd yn llwyr cyn ei adael.
5. Rhoi gwybod i'r heddlu am ymddygiad amheus gan eraill.

Os gwelwch chi danau gwyllt

- Gwnewch yn siŵr eich bod chi ac eraill yn dianc yn ddiogel trwy adael unrhyw ardal **ar unwaith** os ydych yn amau bod tanau gwyllt yn bresennol.
- Ffoniwch 999 a gofynnwch am y gwasanaeth tân os gwelwch dân gwyllt. Rhowch leoliad y tanau gwyllt iddyn nhw ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Dysgu yn ein hamgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.

Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000

